LC269

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001

### Y cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth i'r awdurdod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod, swyddogaethau a gaiff fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth a swyddogaethau sydd i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i raddau cyfyngedig neu o dan amgylchiadau penodedig.

### Rheol Sefydlog 11.5

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.  Gan hynny, nid oes dim pwyntiau'n cael eu nodi ar hyn o bryd fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

### Sylwadau Cyffredinol

### Rheoliad 2(2)(a)(i)

Byddech yn disgwyl bod y swyddogaethau hyn eisoes wedi'u trin a'u trafod gan Reoliad 2(1), ond derbynnir ei bod yn briodol cynnwys y ddarpariaeth yn y fan hon ar y sail y gall fod yna bwerau, o dan rai amgylchiadau, i osod amodau, terfynau neu gyfyngiadau, sef

pwerau a geir mewn darpariaethau statudol heblaw'r rhai a restrir yng ngholofn (2) o Atodlen 1.

**Rheoliad 4 (3) a 4 (4) (a)(i)**

Mae'r geiriau “Cenedlaethol neu” wedi'u rhedeg yn un.

**Atodlen 1, paragraff 59**

Mae'r ymddangos mai camgymeriad yw bod y geiriau yng ngholofn (2) mewn print italig.

**Atodlen 2, paragraff 1**

O gofio nad yw Atodlen 1 yn cynnwys unrhyw baragraffau ar ôl FF (I yn y testun Saesneg) mae'n ymddangos bod y cyfeiriad at “baragraffau A-FF” (“A-I” yn y testun Saesneg) yn ddiangen.

Hefyd yn y testun Cymraeg, dylai “a dan” fod yn “o dan”.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

5 Mehefin 2001